

Cofion a Chyfarchion

- Mae'n dda cael adrodd am y tro cyntaf ers i Aneurin ddod yn weinidog arnom nad oes (hyd y gwyddom ni!) neb o'n haelodau yn yr ysbyty ar hyn o bryd! Er hynny, anfonwn ein cofion at Elgan Roberts (Llanefydd) a dreuliodd ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf – da deall ei fod yn gwella erbyn hyn. Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt oll ac am y rhai hynny sy'n galaru am anwyliaid. Mae eraill sy'n mynd trwy gyfnod digon anodd yn eu bywyd hefyd oherwydd amrywiol amgylchiadau. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw.
- Llongyfarchiadau calonnog i Steffan Morris (Llansannan) a Gwenno Teifi ar eu dyweddiad. Gweddiwn drostynt, ac ymunwn gyda hwy i roi diolch i Dduw am ei ddaioni yn eu hanes.

Apêl Guatemala

Gobeithio fod eglwys i'r Ofalaeth yn llwyddo yn eu hymdrech i godi arian i'r apêl. Y nod yw casglu £12 yr aelod – cyfraniad all wneud cymaint o wahaniaeth i fywydau llawer. Mae Trysorydd yr Henaduriaeth, Mr Dewi Lewis-Jones, yn gofyn yn garedig i bob eglwys anfon yr arian iddo erbyn diwedd Tachwedd, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **Deunydd Hyfforddiant EBC** gan y Parch Ddr Elwyn Richards yng Nghapel Trefnant nos Fercher, Medi 19eg am 7.00. Bydd yn agor y cwrs “Ewch yn ei Enw Ef” ac yn sôn hefyd am y cwrs “Archwilio'r Ffydd Gristnogol”. Mi fydd pum sesiwn arall yn dilyn yn fisol – Hydref, Tachwedd, Ionawr, Chwefror a Mawrth.
- **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ dydd Sadwrn, Medi 22ain.
- **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala Medi 28ain-29ain. Cyfle i addoli, cymdeithas ac astudio gair Duw. Pris: oedolyn £45, plentyn £35. I archebu lle neu fwy o fanylion, cysylltwch â'r coleg: 01678 520565 / colegyala@ebcpcw.org.uk
- **Diwrnod i'r Brenin** – Gŵyl Gristnogol i'r teulu cyfan dydd Sadwrn, Hydref 6ed o 10.00 – 4.00 ar faes y sioe yn Llanelwedd. Mae Rhodri yn un fydd yn cymryd rhan yno ac yn cynnig lifft i bwy bynnag sy'n dymuno mynd, ond os bydd digon o ddiddordeb, gallwn drefnu bws. Cysylltwch â Rhodri neu Mair erbyn Medi 23ain os am fynd yno.
- **Cyfarfod Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** nos Fercher, Hydref 17eg am 7.00 yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele yng nghwmni Elinor Owen.
- **Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled** nos Iau, Hydref 25ain am 7:00 yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni Hywel Meredydd, Tearfund fydd yn siarad am ei daith i Peru.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 9^{fed} Medi 2012

"Dyma Feibil annwyl Iesu,
dyma rodd deheulaw Duw..."
(CFF 198)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da! Faint o sylw fyddwch chi'n ei roi i'r “*Sell by*” sydd ar labeli bwyd? Neu hyd yn oed y “*Best before*”? Siom ydi ymestyn at becyn blasus o'r oergell a chanfod fod y dyddiad wedi pasio! Dwi reit hoff o ‘olives’ ond pan ffeindiais i becyn ar ei hanner yng nghefn yr oergell, sylweddolais y dylswn fod wedi eu mwynhau cyn canol mis Awst! Roeddent yn dal i edrych yn olew (!) – ond nid ar eu gorau.

Y mae Gair Duw yn para byth – does 'na ddim “*Sell by*” arno! Mae ei air yn sefyll byth. Ond tybed a oes yna “*Best before*” yn achos y Beibl? “Cyn dyfod y dyddiau blin” yw'r amser i gofio am Dduw ein creawdwr (Pregethwr 12:1). Er mwyn cael y gorau o'r Gair rhaid i ni beidio ag oedi ei fwyta a'i fwynhau. Heddiw yw'r dydd y mae ar ei orau i ni.

Dyma rai canllawiau i'n helpu gobeithio i gael y gorau o ddarllen Gair Duw:

1. Cadwch y Beibl wrth law yn y tŷ/yn y gwaith/ar eich ffôn symudol fel ei fod o fewn cyrraedd hawdd.
2. Gweddiwch yn syml wrth ei ddarllen am arweiniad yr Ysbryd Glân.
3. Darllenwch yn rheolaidd, nid dim ond mewn argyfwng, a darllenwch y paragraff/bennod ar ei hyd er mwyn cael yr ystyr a'r rhediad yn glir.
4. Ewch yn ôl dros y darn a rhoi sylw i'r pethau sydd wedi eich taro o'r newydd a'r rhannau sydd yn aneglur i chi. Gofynnwch i Gristion arall os nad ydych yn deall rhyw ddarn neu holwch un o'r arweinwyr.
5. Gofynnwch i'r Ysbryd ddangos Crist i chi drwy'r geiriau sydd o'ch blaen.
6. Gofynnwch i Dduw am nerth i ufuddhau i'r Gair fel y byddwch yn cael eich argyhoeddi gan yr Ysbryd.
7. Gweddiwch ar ôl gorffen darllen gan roi diolch i Dduw am ei amynedd a'i ras ac am y doethineb sydd ynddo.
8. Rhannwch be 'da chi wedi ei ddarllen hefo rhywun arall pan gewch gyfle, gan ddweud sut y cawsoch eich bendithio gan Dduw.
9. Peidiwch â gohirio darllen y Beibl – cofiwch mai **heddiw** yw'r dyddiad arno. A heddiw ydi'r diwrnod y bydd ar ei orau i chi.

Byddai'n braf i ni fel Bro gyd-ddarllen y Beibl dros gyfnod o amser, felly rydym yn gobeithio cychwyn cynllun darllen o fis Ionawr ymlaen ac yn y cyfamser, gobeithio y cewch Duw yn agos wrth i chi ddarllen a myfyrio yn ei Air rhyfeddol, bywiol ac ar eich oedfa heddiw gyda'r Arglwydd.

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Rhodri yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mercher • **Cyfarfod o Gymdeithas Chwiorydd Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 7.00 yng nghwmni Aeryn Owen Jones, Dinmael. Croeso i'r dynion hefyd. Ceir yno hefyd stondin Dewch a Phrynwch.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
• **Astudiaeth Feiblaidd** yn Llanefydd am 7.30.
- Sadwrn • **Encil** yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog o 10.30 – 3.00 dan nawdd Adran Bywyd a Thystiolaeth Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yng nghwmni'r Parch. John a Gwenda Owen. Y thema fydd "Bywha dy waith". Croeso i holl aelodau'r eglwysi – dewch i fwynhau diwrnod o fyfyrddod a chymdeithasu. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, a wnewch chi roi enwau neu rifau y bobl sy'n bwriadu dod ymlaen llaw i Gwenfyl Jones (01745 890417 / gwenfyljones@btinternet.com) os gwelwch yn dda? Bydd te a choffi ar gael ond dewch â thamaid o ginio hefo chi.
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn dilyn y rhan ddechreuol o'r oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. **Ar ddechrau'r oedfa, fe fydd aelodau Capel y Groes yn gofyn barn yr aelodau ynglŷn ag a ddylid ethol mwy o flaenoriaid.** Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain Ysgol Sul/gwasanaeth i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00 ac yn llongyfarch Gwyneth Evans, Meurig a Menna Owen ac Elfed Williams ar dderbyn Medal Gee am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Bydd cyfle am banded a sgwrs yn y festri yn dilyn y gwasanaeth. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cofiwch am y cinio a'r sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb. Enwau i Haf (582215) erbyn nos Lun, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sadwrn Bydd Taith Gerdded Noddedig o amgylch yr Alwen i godi arian tuag at Apêl Guatemala. Croeso i unrhyw un ymuno. Taflenni noddi ar gael gan Sian Fferwd (870230). Bwriedir cychwyn o faes parcio'r Alwen am 11.00 os bydd y tywydd yn caniatáu. Dewch â phicnic hefo chi.
- Sul nesaf Bydd y Parch Sion Aled Owen yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn dilyn rhan ddechreuol yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 11.15.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos (erbyn 9.00 nos Fercher) i:
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102